# YnNi Teg Cyf

## Rheolwr Prosiect

**Yn atebol i: - Bwrdd rheolwyr YnNi Teg**

**Rheolir gan: - Rheolwr Datblygu Busnes - Ynni Cymunedol Cymru**

**Adrodd i : - Bwrdd rheoli YnNi Teg**

**Lleoliad: - Mae lle swyddfa ar gael yng Nghaerdydd a/neu Bethesda, Gwynedd. Mae gweithio'n hyblyg hefyd yn opsiwn**

**Cyflog - £30,000 (pro rata yn seiliedig ar 35 awr yr wythnos)** - Byddai'r rôl hon yn rhan amser i ddechrau am 24.5 awr yr wythnos.

**Contract -** Mae hwn yn gontract tymor penodol am 6 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a bydd parhad y rôl hon yn dibynnu ar nodi cyllid pellach. Ystyrir secondiad.

Amdanom ni

Mae YnNi Teg yn brosiect ynni cymunedol Cymreig gyda thyrbin gwynt 900kW. Comisiynwyd ein tyrbin gwynt EWT DW54 ger Caerfyrddin yn ne Cymru ar 2 Awst 2017. Mae'n sefyll ar dwr 40m, mae ganddo rychwant llafn 54 metr, ac rydym yn disgwyl iddo gynhyrchu tua 2000 MWh o drydan y flwyddyn (digon ar gyfer tua 650 o gartrefi).

Ein cenhadaeth yw helpu Cymru i ddatblygu dyfodol ynni glân, lliniaru newid yn yr hinsawdd trwy osod ynni adnewyddadwy, a gwneud hyn mewn ffordd deg a democrataidd trwy ledaenu perchnogaeth a buddion ar draws y gymuned yn hytrach na yn nwylo'r ychydig. Cymdeithas Budd Cymunedol yw YnNi Teg, sy'n golygu y gall unrhyw un (16+ oed) ddod yn aelod trwy brynu cyfranddaliadau ac felly dod yn rhan-berchennog o'r tyrbin gwynt.

### Prif bwrpas y swydd:

Mae Cymru wedi ymrwymo i 1GW o ynni adnewyddadwy fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030 ac i berchnogaeth leol fod yn rhan o bob prosiect ynni adnewyddadwy o 2020. Mae'r raddfa sy'n ofynnol i gyflawni hyn, a sicrhau budd cymunedol sylweddol yn gofyn am gynnydd enfawr yn yr adnoddau sydd ar gael. Argymhellodd adroddiad diweddar gan yr IWA y dylid sefydlu cwmni datblygu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy sydd mewn eiddo lleol. Ein cred yw mai YnNi Teg yw'r datblygwr gorau i wneud hynny gan ein bod yn

gwmni sy'n eiddo i'r gymuned. Rydym yn cynyddu ein gallu i ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

-Datblygu prosiectau cymhleth y tu hwnt i allu grwpiau cymunedol i weithredu ar eu pennau eu hunain
- Cefnogi prosiectau Ynni Cymunedol i ddatblygu cydberchnogaeth a phrosiectau cymhleth
- Creu prosiectau cydberchnogaeth a chanllawiau arfer da i Gymru
- Dod ag asedau dan berchnogaeth breifat i berchnogaeth gymunedol
- Sicrhau cyfleoedd cyllid ychwanegol a chwilio am gyfleoedd newydd yn y farchnad.

Bydd y prosiect yma yn helpu YnNi Teg a phartneriaid i ddatblygu nifer o brosiectau a fydd naill ai'n eiddo i gymunedau 100% neu a fydd ag elfen o berchnogaeth gymunedol.

Mae YnNi Teg yn chwilio am unigolyn deinamig, sy'n rheolwr prosiect profiadol i chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu a darparu'r gwasanaethau allweddol hyn.

**Bydd y Rheolwr Prosiect:**

Yn sefydlu YnNi Teg fel datblygwr cymunedol o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu tudalen we, pecyn hyrwyddo a digwyddiad lansio i hyrwyddo'r gwasanaeth
- Hyrwyddo'r gwasanaeth i aelodau CEW, datblygwyr, deiliaid tir a rhanddeiliaid allweddol eraill
- Nodi prosiectau posibl i'w datblygu neu brosiectau sydd angen cefnogaeth
- Sicrhau'r hawl i ddatblygu'r prosiectau mwyaf addawol
- Sicrhau contractau i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy eraill sy'n eiddo i bobl leol
- Sicrhau incwm ychwanegol i barhau â'r gwasanaeth hwn y tu hwnt i'r cyfnod cyllido cychwynnol.
- Datblygu cyfleoedd cydberchnogaeth eraill yng Nghymru
- Gweithio gydag YnNi Teg a CEW i ddarparu gwasanaethau newydd i gynyddu faint o ynni sy'n eiddo i'r gymuned yng Nghymru.
- Hyrwyddo cenhadaeth, nodau a gweithgaredd y Sector Ynni Cymunedol yng Nghymru.

**Sgiliau Hanfodol**

- Profiad Rheoli Prosiect rhagorol mewn ystod eang o brosiectau, yn enwedig profiad yn rheoli prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Dealltwriaeth a gwybodaeth dda o'r camau allweddol wrth ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy mawr
- Unigolyn â chysylltiadau da o fewn y sector Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru
- Profiad o farchnata a hyrwyddo gwasanaethau a chynhyrchion.
- Sgiliau trefnu arbennig a'r gallu i addasu a defnyddio menter.
- Gwybodaeth ragorol o'r amgylchedd polisi yng Nghymru a'r DU sy'n ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni sy'n Berchnogaeth y Gymuned.

- Profiad o ddelio â'r cyfryngau ac ymgysylltu â nhw
- Hwylusydd rhagorol sy'n gallu sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â chanlyniadau clir.
- Sgiliau cyflwyno ac ysgrifennu rhagorol, a chyda'r gallu i ddrafftio a chyflwyno adroddiadau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol ac i nodi a manteisio ar gyfleoedd
- Profiad o gyflwyno digwyddiadau, cyfarfodydd neu seminarau / cynadleddau ac yna trefnu a rheoli.
- Chwaraewr tîm agored, cadarnhaol a gafaelgar gyda'r gallu i weithio'n annibynnol hefyd
- Cyfathrebwr rhagorol sydd â phrofiad o ddelio ag ystod eang o randdeiliaid
- Diddordeb gwirioneddol a brwdfrydedd dros weithio i gefnogi ynni a chynaliadwyedd cymunedol
- Yn barod i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd ac aros oddi cartref dros nos gyda rhybudd ymlaen llaw.

**Sgiliau Dymunol**

- Byddai'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol iawn
- Profiad o'r sector ynni cymunedol

**<u>Sut i wneud cais?</u>**

Os ydych chi am wneud cais am y rôl hon, anfonwch eich CV a datganiad personol 2 dudalen yn nodi'ch profiad, sgiliau a gwybodaeth allweddol sy'n dangos pam eich bod yn credu mai chi yw'r person iawn ar gyfer y rôl hon.

Y dyddiad cau ar gyfer eich cais yw diwedd y dydd ddydd Mercher y 19eg o Awst. Anfonwch eich ceisiadau at dyfan@communityenergywales.org.uk

Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal ddydd Gwener yr 28ain o Awst, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gallu mynychu. Bydd rhain yn cael eu cynnal drwy gyswllt fideo.